

## **Datganiad Gwefan Prosesu Data HEAL-COVID**

Astudiaeth ymchwil yw HEAL-COVID sy'n cymharu gwahanol driniaethau i weld pa rai sy'n well am atal a thrin symptomau hirdymor COVID-19. Os ydych wedi cytuno i gymryd rhan yn HEAL-COVID, neu'n ystyried cymryd rhan, byddwch wedi derbyn taflen wybodaeth yr astudiaeth. Mae'r daflen wybodaeth yn cynnwys yr holl fanylion allweddol am gyfranogi yn yr astudiaeth, ac os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn dylech ofyn i'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch, neu sydd wedi'ch gwahodd i gymryd rhan.

Ar y dudalen hon gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach am sut mae tîm HEAL-COVID yn defnyddio eich data, pwy fydd yn gallu cael gafael ar wybodaeth amdanoch chi, a phwy i gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut yr ymdrinnir â'ch data.

### **Pwy sy'n rhedeg yr astudiaeth?**

Mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Caergrawnt yn gweithredu ar y cyd fel Noddwr yr astudiaeth hon ac yn gyfrifol am ei rheoli. Maent wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig. Maent wedi gofyn i'r gwaith o gynnal yr astudiaeth o ddydd i ddydd gael ei gynnal gan dîm yng Nghanolfan Treialon Clinigol Lerpwl (LCTC, rhan o Brifysgol Lerpwl), ymchwilwyr o Brifysgol Caergrawnt ac ymchwilwyr o'r Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), rhan o Brifysgol Bangor (tîm yr astudiaeth ganolog). Bydd angen i dîm yr astudiaeth ganolog ddefnyddio gwybodaeth gennych chi ac o'ch cofnodion gofal iechyd ar gyfer y prosiect ymchwil hwn.

Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Caergrawnt, Prifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Lerpwl yw'r cyd-reolwyr data ar gyfer HEAL-COVID, ac maent yn gyfrifol am ofalu am eich gwybodaeth a'i defnyddio'n briodol.

Mae rheoliadau diogelu data yn mynnu ein bod yn nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth amdanoch. Yn achos yr astudiaeth hon, rydym yn defnyddio eich Data Personol at ddibenion ymchwil, ac mae hon yn 'dasg er budd y cyhoedd'. Ystyrir bod rhywfaint o Ddata Personol yn sensitif ac fe'i gelwir yn "gategori arbennig". Mae hyn yn cynnwys data sy'n ymwneud â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, sy'n cael ei gasglu ar gyfer HEAL-COVID. Er mwyn prosesu hyn, rydym yn dibynnu ar y sail gyfreithiol bod angen prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol. Gallwch ddarllen mwy am ddata personol a sensitif ar [wefan LCTC](#).

Adolygwyd yr astudiaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a'r Pwyllgor Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol i sicrhau bod yr astudiaeth yn dderbyniol yn wyddonol ac yn foesebol. Ariennir yr astudiaeth hon gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd Ymchwil Iechyd (NIHR; dynodydd yr astudiaeth 133788) a Chanolfan Ymchwil Biofeddygol Caergrawnt NIHR.

Mae tîm yr astudiaeth ganolog yn gweithio gyda chwmni o'r enw Aparito, sydd wedi'i leoli yn y DU, i gynhyrchu'r ap symudol/llechen y byddwch yn cwblhau eich holiaduron dilynol arno, os ydych wedi dewis cymryd rhan yn y dilyniant dewisol hwn.

## **Pa wybodaeth amdanaf caiff ei chasglu?**

Bydd staff o dîm eich ysbyty yn cofnodi gwybodaeth o'ch cofnodion meddygol ar gronfa ddata'r astudiaeth. Bydd hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth feddygol/gofal iechyd amdanoch chi, yn ogystal â'ch enw chi, rhif y GIG (CHI yn yr Alban neu rif Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon), dyddiad geni a manylion cyswllt. Bydd eich dynodwyr yn cael eu hamgryptio i'w diogelu. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir amdanoch yn cael ei defnyddio i wneud yr ymchwil neu i wirio eich cofnodion i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei wneud yn iawn.

Yn HEAL-COVID byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am eich apwyntiadau â'ch meddyg teulu, atgyfeiriadau, ymweliadau ysbyty neu ofal iechyd arall dros y 12 mis ar ôl i chi gytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cesglir y wybodaeth hon fel mater o drefn gan NHS Digital yn Lloegr, a sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. I gael mynediad at eich data gofal iechyd, bydd LCTC yn anfon manylion gan gynnwys eich rhif GIG/rhif CHI/Rhif Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dyddiad geni a'ch rhif unigryw parthed eich cyfranogiad yn yr astudiaeth i NHS Digital neu'r sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn iddynt nodi eich cofnodion gofal iechyd arferol. Bydd NHS Digital neu gorff cyfatebol yn dychwelyd eich data arferol i LCTC gyda'ch rhif GIG/CHI wedi ei ddileu, fel bod manylion eich gofal iechyd yn gysylltiedig â chi yn unig drwy'ch rhif cyfranogiad astudiaeth unigryw.

Rydym yn bwriadu casglu'r data hwn am 12 mis o'r diwrnod y byddwch yn ymuno â'r astudiaeth. Yn y dyfodol, gellid ymestyn hyn. Efallai y byddwn hefyd yn dolennu'ch gwybodaeth â ffynonellau data eraill, gan gynnwys cronfeydd data o dreialon clinigol eraill, i ateb cwestiynau sy'n glinigol berthnasol. Os caiff ffynonellau data newydd eu nodi neu os caiff y cyfnod casglu data ei ddiweddarau, byddwn yn cynnwys hyn ar y dudalen we hon.


## Llif data astudiaeth HEAL-COVID y cyfranogwr

### Key:

**Oren** = Data personol; mae hyn yn cynnwys dynodwyr fel eich rhif GIG.

**Glas** = Data wedi'i ddad-nodi na ellir ei gysylltu â chi ond drwy'ch rhif adnabod astudiaeth unigryw ("rhif ar hap").

**Coch** = Data allbwn astudiaeth cyfunol – ni fydd neb yn gallu eich adnabod o hyn.



### **Pwy fydd yn gallu cael gafael ar fy ngwybodaeth?**

Bydd yr holl wybodaeth gyfrinachol am eich cyfranogiad yn yr astudiaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fydd pobl nad oes angen iddynt wybod pwy ydych chi'n gallu gweld eich enw na'ch manylion cyswllt. Bydd gan eich data rif cod unigryw yn lle hynny.

Yn ogystal â thîm canolog yr astudiaeth, efallai y bydd angen i sefydliadau rheoleiddio ac archwilwyr neu arolygwyr ar ran y sefydliadau Noddi edrych ar eich cofnodion meddygol ac ymchwil i wirio cywirdeb yr astudiaeth ymchwil.

Os cytunwch i gymryd rhan yn yr holiaduron dilynol dewisol drwy ein ap ffôn clyfar/llechen, bydd Aparito (y cwmni sydd wedi gwneud ap HEAL-COVID) yn gallu gweld unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth gwblhau'r rhain. Ni fyddant yn gwybod eich enw na'ch manylion personol, nac yn cael gweld eich cofnodion gofal iechyd arferol.

Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth amdanoch yn ddiogel. Unwaith y byddwn wedi gorffen yr astudiaeth, byddwn yn cadw'r data am 10 mlynedd, fel y gallwn wirio'r canlyniadau. Ysgrifennwn ein hadroddiadau mewn modd na all neb weithio allan eich bod wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth.

### **Beth yw fy newisiadau parthed sut defnyddir fy ngwybodaeth?**

Gallwch roi'r gorau i fod yn rhan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, ond byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch sydd gennym eisoes. Os nad ydych am gymryd rhan yn HEAL-COVID mwyach, dylech siarad â'ch tîm ysbyty lleol drwy'r manylion cyswllt ar y daflen wybodaeth a roddwyd i chi pan wnaethoch gytuno i gymryd rhan.

Os byddwch yn dewis rhoi'r gorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth, hoffem barhau i gasglu gwybodaeth am eich iechyd o gofnodion gofal iechyd arferol. Os nad ydych am i hyn ddigwydd, dywedwch wrthym a byddwn yn rhoi'r gorau iddi.

Mewn rhai achosion, fodd bynnag efallai y bydd angen i ni barhau i gasglu gwybodaeth gyfyngedig am unrhyw sgil-ffeithiau o'r driniaeth astudiaeth y gallech eu profi. Ni wnawn hyn ond pan fo'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae angen i ni reoli eich cofnodion mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gallu gadael i chi weld na newid y data sydd gennym amdanoch.

### **Rhannu gwybodaeth ar gyfer ymchwil arall**

Pan fyddwch yn cytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil, gallai'r wybodaeth am eich iechyd a'ch gofal fod o fudd i ymchwilwyr sy'n cynnal astudiaethau ymchwil eraill yn y sefydliad hwn ac mewn sefydliadau eraill. Gall y sefydliadau hyn fod yn brifysgolion, sefydliadau'r GIG neu'n gwmnïau sy'n ymwneud ag ymchwil iechyd a gofal yn y wlad hon neu dramor. Dim ond sefydliadau ac ymchwilwyr fydd yn defnyddio eich gwybodaeth i gynnal ymchwil yn unol â [Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#).

Os byddch yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd gennych y dewis i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol gan ddefnyddio eich data a gesglir o'r astudiaeth hon.

### **Ble alla i gael gwybod mwy am sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth ac am eich hawliau:

- ar wefan LCTC, <https://lctc.org.uk/privacy>
- yn [www.hra.nhs.uk/information-about-patients](http://www.hra.nhs.uk/information-about-patients)
- yn nhaflen yr Awdurdod Ymchwil Iechyd sydd ar gael o [www.hra.nhs.uk/patientdataandresearch](http://www.hra.nhs.uk/patientdataandresearch)
- drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Caergrawnt yn [infogov@addenbrookes.nhs.uk](mailto:infogov@addenbrookes.nhs.uk)
- drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Caergrawnt yn [dpo@admin.cam.ac.uk](mailto:dpo@admin.cam.ac.uk)
- drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Lerpwl yn [legal@liverpool.ac.uk](mailto:legal@liverpool.ac.uk)
- drwy holi aelod o'r tîm ymchwil yn eich ysbyty

### **Allaf i gwyno?**

Medrwch. Os nad ydych yn hapus â'r ffordd yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth, neu gyda'r ymateb a gafwyd gennym ni, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF ([www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)).